S4C /

# Cydlynydd Pwrpas Cymdeithasol

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

**Pam ymuno â S4C?**

Yn S4C, rydyn ni'n angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu pawb, Cer Amdani.

Rydyn ni'n chwilio am unigolyn cydweithredol, rhagweithiol ac egnïol i helpu gyrru newid go iawn ar draws y sector darlledu Cymraeg. Byddwch yn drefnus, dadansoddol ac addasadwy, gan weithio'n agos gyda thimau a phartneriaid i wella monitro amrywiaeth a chael effaith wirioneddol. Os ydych chi'n frwdfrydig, ymroddedig ac yn angerddol dros ddiwylliant Cymru, dyma'ch cyfle i siapio dyfodol cynhwysol y cyfryngau!

**Trosolwg y Swydd**

Fel Cydlynydd Pwrpas Cymdeithasol, byddwch yn cydlynu prosiect sy'n cryfhau gwaith S4C ar amrywiaeth a chynhwysiant - o gasglu a dadansoddi data i ddatblygu ymgyrchoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd y gwaith yn cynnwys gweithio'n agos iawn gyda rhanddeiliaid a phartneriaid dros y sector cynhyrchu, yn ogystal ag adrannau dros S4C i greu newid cadarnhaol, sicrhau cynrychiolaeth decach ar y sgrîn ac o fewn y sector, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n pwrpas cymdeithasol.

Mae'r tîm yn rhagweithiol ac yn creu newid mewn ffordd bositif a chydweithredol er mwyn i S4C gyflawni ei bwrpas cymdeithasol. Drwy amryw o weithgareddau mae S4C yn darparu cynnwys beiddgar ac arloesol sy'n dathlu'n diwylliant cyfoes Cymru.

**Beth fyddwch chi'n ei wneud?**

Y Cydlynydd Pwrpas Cymdeithasol fydd yn gyrru'r prosiectau sy'n ymwneud â'n pwrpas cymdeithasol yn ei blaen yn erbyn cynllun ac amserlen wedi'i ddarparu. Mi fydd yn atebol i'r Pennaeth Pwrpas Cymdeithasol, ac yn gweithio yn agos gydag aelodau eraill o'r tîm.

**Ymhlith y dyletswyddau fydd:-**

- Cyd-lynu gyda thimoedd mewnol yn S4C yn ogystal â rhanddeiliaid allanol, a chyfathrebu yn rheolaidd gyda nhw, i sicrhau bod pawb yn chwarae eu rhannau tuag at yr amcanion prosiect.
- Trefnu a chyd-lynu gwaith i gael y ffurflenni a chanllawiau sy'n rhan o'r prosiect ar y platfformau priodol (gan gynnwys PAC, Survey Monkey a'n gwefan S4C).
- Ar y cyd gyda'r Pennaeth Pwrpas Cymdeithasol, dyfeisio, cynllunio a chyflwyno gweithgareddau ymarferol sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i amrywiaeth yn y sector cynhyrchu Cymraeg, ac yn ymateb at anghenion penodol ar ran bylchau sgiliau a than-cynrychiolaeth yn y gweithlu.
- Creu ymgyrch hybu a hyrwyddo'r prosiect er mwyn rhannu gwybodaeth ymhlith y sector am y prosesau monitro newydd, a gweithio'n agos gyda'r timoedd Cyfathrebu a Marchnata i'w gweithredu dros gyfnod penodol.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

- Gweithio gyda'r tîm Ymchwil i gasglu a dadansoddi canlyniadau'r proses monitro, a chreu cyflwyniadau ac adroddiadau ar sail y data hwn i'w fwydo nôl yn fewnol ac yn allanol.

- Cyfrannu at broses gwerthuso ac adrodd ar y prosiect, gan gynnwys gweithredu newidiadau i'r system ar sail y gwersi a ddysgwyd.

- Cefnogi gweithgareddau eraill y tîm sy'n ymwneud a'n pwrpas cymdeithasol lle bo'n briodol.

- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill.

**Byddwch yn llwyddo yn y rôl hon os:**

- Ydych chi'n frwdfrydig dros greu diwylliant gwaith cynhwysol, egnïol ac iach.
- Ydych yn berson dadansoddol a greadigol yn gallu troi data'n mewnwelediadau ac yn defnyddio dulliau newydd i ysbrydoli newid cadarnhaol.
- Ydych yn gydweithredol, rhagweithiol ac arloesol
- Ydych yn mwynhau gweithio'n agos gyda thimau a rhanddeiliaid.
- Gallwch weithio'n annibynnol gyda rhyddid i wneud penderfyniadau ond hefyd yn mwynhau cydweithio gyda thîm ehangach i rannu syniadau.
- Oes gennych wybodaeth gadarn am ddeddfwriaeth perthnasol ac ymarfer orau.
- Ydych chi'n ymrwymedig i'ch datblygiad personol eich hun.
- Ydych chi'n gyfathrebwr cryf yn y Gymraeg a'r Saesneg (llafar ac ysgrifenedig - cymorth gloywi iaith ar gael).

**Byddwch hefyd yn:**

- Ymwybodol o strategaeth S4C, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn sy'n cynnwys gweithio o fewn canllawiau Iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gwarchod data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.
- Cyfrannu mewn ffordd bositif tuag at ddiwylliant a chyflawni strategaeth S4C.
- Cyfrannu at a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cydweithio gyda'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy'n datblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr ar bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr sy'n trin pawb gyda pharch.

**Beth fyddwch chi'n ei gael?**

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.
- Gweithio mewn amgylchedd hyblyg o fewn un o'n swyddfeydd yng Nghymru.
- Mae S4C yn ymrwymo i dwf personol ei gweithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr i wella sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gymwysterau proffesiynol, hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus.
- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector cyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau a rhagolwg rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.
- Mae gan weithwyr y cyfle unigryw i gyfrannu at hybu a chadw iaith a diwylliant Cymru drwy eu gwaith.

S4C /

- Mae S4C yn cynnig Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda 10% yn cael ei gyfrannu gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau yn cynyddu yn raddol hyd at 32 diwrnod ymhen 9 mlynedd.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch a pobl@s4c.cymru.

Yn eich cais, sicrhewch eich bod yn amlygu'r sgiliau a'r profiad sydd gennych sy'n berthnasol i'r rôl a restrir yn y fanyleb bersonol isod ac sy'n unol â'n gwerthoedd craidd. Rhowch enghreifftiau clir sy'n dangos pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd.

## Manyleb Personol

| Nodwedd | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | Sgiliau Cymraeg cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig. | |
| **Cymwysterau** | | Hyfforddiant cynhwysiant neu gyfathrebu newid.<br><br>Cymhwyster mewn marchnata neu gyfathrebu. |
| **Profiad** | Profiad cynllunio ymgyrchoedd neu brosiectau, a'u gweithredu.<br><br>Gweithio o fewn tîm yn llwyddiannus.<br><br>Delio gyda ffigurau.<br><br>Ymdrin ag unigolion ar bob lefel.<br><br>Profiad creu perthnasau positif gydag amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid.<br><br>Profiad gweinyddol helaeth mewn arferion swyddfa dda.<br><br>Defnyddio systemau data.<br><br>Profiad o gyflwyno prosiect neu ymgyrch yn erbyn amserlen benodol. | Profiad rheoli prosiectau.<br><br>Profiad o weithio o fewn y sector darlledu neu greadigol.<br><br>Ymdrin â data cyfrinachol a sensitif. |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Lefel uchel o sgiliau ar systemau Microsoft Office Word, Excel, PowerPoint, Outlook.<br><br>Dealltwriaeth o arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dealltwriaeth gadarn o ddeddfwriaeth.<br><br>Sgiliau rhyngbersonol cryf, yn cynnwys sgiliau hwyluso a dylanwadu. | Dealltwriaeth o ddatblygu strategaeth.<br><br>Sgiliau marchnata a chreu ymgyrchoedd.<br><br>Sgiliau dadansoddi data. |

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

| | | |
|---|---|---|
| | Sylw rhagorol i fanylion a chywirdeb.<br><br>Sgiliau dadansoddi cryf.<br><br>Cefnogaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle.<br><br>Profiad o greu a chynhyrchu adroddiadau rheolaidd.<br><br>Sgiliau cyfathrebu rhagorol. Sgiliau Cymraeg cryf, yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r gallu i ymateb i ymholiadau gan amrywiaeth o ddefnyddwyr. (Mae cymorth datblygu sgiliau ysgrifennu a gloywi iaith ar gael).<br><br>Sgiliau trefnu rhagorol, gan gynnwys y gallu i flaenoriaethu llwythi gwaith amrywiol â therfynau amser sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Y gallu i aml-dasg, cynnal amserlen hyblyg, a newid cyfarwyddiadau a/neu dasg.<br><br>Gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol, gan gydbwyso blaenoriaethau gwahanol.<br><br>Gwybodaeth am y dirwedd busnes yn y sector cynhyrchu Cymreig.<br><br>Y gallu i weithio'n hyblyg gydag amrywiaeth o dimau, gan feithrin perthynas gref o ddydd i ddydd gyda chydweithwyr, partneriaid a rhanddeiliaid. | |
| **Nodweddion Personol** | Gallu cymell eich hun, gyda'r gallu i weithio heb oruchwyliaeth.<br><br>Gallu meddwl tu allan i'r bocs i ddatblygu atebion newydd.<br><br>Dealltwriaeth ac ymrwymiad i Strategaeth a pholisi Amrywiaeth a chynhwysiant S4C.<br><br>Lefel uchel o uniondeb personol, a fynegir drwy ymddygiad.<br><br>Dangos Gwerthoedd ac Ymddygiadau sy'n cyd-fynd â gwerthoedd S4C.<br><br>Parodrwydd i weithio'n hyblyg. | |

**Manylion eraill**

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Caerfyrddin / Caerdydd / Caernarfon (o leiaf 2 diwrnod mewn swyddfa) |
| **Cyflog:** | £39,000 y flwyddyn |
| **Cytundeb:** | 12 mis. Byddwn yn hapus i ystyried Secondiad. |
| **Oriau gwaith:** | 35.75 yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc. |
| **Cyfnod prawf:** | 6 mis |
| **Gwyliau:** | Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau. |
| **Pensiwn:** | Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%. |
| **Teithio:** | Bydd teithio achlysurol yn rhan o'r swydd, fel rheol o fewn y Deyrnas Unedig |

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn **12.00 ar ddydd Mawrth 14 Hydref 2025** at Pobl@s4c.cymru neu Pobl a Diwylliant, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

**Dyddiad Cyfweliadau:** Wythnos 20 Hydref 2025

Rydym yn chwilio am rywun a all ymuno â'n tîm a dechrau ar unwaith (neu cyn gynted â phosibl).

Nid ydym yn derbyn CV.

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Defnyddio AI**

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

S4C /

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.

**Sgiliau Cymraeg**

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Rydym yn falch o fod yn ddarlledwr Cymraeg ac rydym yn disgwyl i holl aelodau'r tîm werthfawrogi a pharchu'r iaith a'r diwylliant. Rydym yn cefnogi ac yn annog dysgu Cymraeg yn y gweithle, ac rydym yn chwilio am rywun sy'n agored i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r iaith fel rhan o'u taith gyda ni. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.